Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG48358**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA)

Hydref 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
WG48358, ISBN Digidol 978-1-83504-818-4

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ........ 1
3. Ymdrin â'r ymatebion ........ 1
4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth ........ 2
   Cysondeb dros y ffin ........ 2
   Y dosbarthiadau cofrestru ........ 3
   Lefelau cymhwysedd ........ 9
   Nodweddion gwarchodedig ........ 13
   Cwestiynau cyffredinol ........ 14
5. Y Camau Nesaf ........ 15

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 10 Tachwedd 2022 ar y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA). Mae'r FfCAA yn disgrifio'r lefelau o gymhwysedd y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol eu cyrraedd i gofrestru'n arolygydd adeiladau o dan ddarpariaethau Deddf Adeiladu 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.

1.2. Ni fwriedir i'r adroddiad hwn gofnodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, ond dylid nodi bod yr holl sylwadau wedi cael ystyriaeth ddyladwy, p'un a ydynt wedi'u nodi yma ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bob grŵp o gwestiynau, fel y cawsant eu grwpio yn yr ymgynghoriad.

1.3. Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1. Cafwyd 25 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 12 o fathau o sefydliadau a nodwyd ar y ffurflen yr oedd eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

| **Math o Sefydliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | 0 |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 2 |
| Awdurdod Lleol | 6 |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | 1 |
| Arolygydd Adeiladau – Arolygydd Cymeradwy | 1 |
| Arolygydd Adeiladau – Awdurdod Lleol | 5 |
| Pensaer | 1 |
| Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | 0 |
| Gweithiwr proffesiynol ym maes adeiladu | 0 |
| Corff proffesiynol | 4 |
| Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | 0 |
| Parti arall sydd â diddordeb (rhowch fanylion) | 5 |

# 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond lle nad oedd ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen, mae'r sylwadau wedi cael eu priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol.

3.2. Lle nad oedd ymatebwyr wedi ateb drwy ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond roeddent wedi nodi safbwynt eglur yn eu hateb, mae'r rhain

wedi cael eu priodoli i'r ymateb hwnnw yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle y defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd ‘Rwy'n cefnogi'r cynnig’, cafodd ei ymateb ei nodi'n ateb cadarnhaol. Lle nad oedd ymateb yn glir, cafodd atebion eu nodi'n rhai ‘dim ymateb’ yn y dadansoddiad ystadegol a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o'r sylwadau.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth

## Cysondeb dros y ffin

**Cwestiwn 1**

4.1. A yw cysondeb rhwng gweinyddiaethau (h.y. Cymru a Lloegr) yn bwysig i'ch sefydliad?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 18 | 72.0% |
| **Nac ydy** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 4.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.2. Nododd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr fod cysondeb rhwng gweinyddiaethau yn bwysig, yn enwedig o ran y broses gofrestru, am fod llawer o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, un thema gyffredin a gododd yn y sylwadau a gafwyd oedd y gall gwahaniaethau rhwng y systemau achosi dryswch, ac y byddai angen i weithwyr proffesiynol ddysgu dau fframwaith tebyg ond gwahanol, gan arwain at gamgymeriadau, yn ogystal â goblygiadau ariannol a gweinyddol ychwanegol o ran cofrestru a chynnal cofrestriad.

**Cwestiwn 2**

4.3. Yn eich barn chi, pa gyfleoedd/rhwystrau allai godi yn sgil datblygu safonau wedi'u teilwra ar gyfer y rhai sy'n gweithredu yng Nghymru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.4. Pwysleisiodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod angen cysondeb, fel yr amlinellwyd yng nghwestiwn 1, ac roeddent yn dymuno gweld safonau unedig sy'n golygu nad oes unrhyw rwystrau i symudiadau gweithwyr proffesiynol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.5. Gan fod cefnogaeth amlwg o blaid cysondeb rhwng Cymru a Lloegr, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau er mwyn cysoni safonau cymhwysedd cymaint â phosibl a hefyd gyflwyno fframwaith sy'n addas at y diben yng Nghymru.

## Y dosbarthiadau cofrestru

**Arolygydd Adeiladau Dosbarth 1 (Cyswllt/Cynorthwyol)**

**Cwestiwn 3.1**

4.6. A ydych yn cytuno y dylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 10 | 40.0% |
| **Nac ydw** | 9 | 36.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

**Cwestiwn 3.2**

4.7. A ydych yn cytuno mai cyswllt/cynorthwyol yw'r teitl cywir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 3 | 12.0% |
| **Nac ydw** | 15 | 60.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 3.3**

4.8. Os nad ydych, beth ddylai'r teitl fod yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.9. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn ynghylch a ddylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r teitl a gynigiwyd.

4.10. Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod rôl Arolygydd Cyswllt yn rhy amwys ac y gallai gael ei dehongli mewn ffyrdd gwahanol a golygu rolau tra gwahanol ymhlith y proffesiwn. Teimlai nifer o'r ymatebwyr na fyddai'n cynnig eglurder ynglŷn â lefelau cymhwysedd ychwaith, gan fod bwlch sylweddol rhwng y dosbarth Arolygydd Cyswllt a Chynorthwyol arfaethedig.

4.11. Awgrymodd ymatebwyr deitlau amgen, gyda llawer yn cyfeirio at y teitlau yn adroddiad “The Recommendations on the Future Regulation of the Building

Control Sector and Profession in England" (adroddiad FoBC) neu fodel y Sefydliad Cymhwysedd Diogelwch Adeiladau.

**Cwestiwn 3.4**

4.12. A oes unrhyw beth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth cofrestru? Os oes, rhowch wybod inni isod.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 11 | 44.0% |
| **Nac oes** | 6 | 24.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

4.13. Roedd y mwyafrif sylweddol yn cytuno bod rhywbeth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth, gyda chwech yn anghytuno a'r gweddill ddim yn siŵr. Nodwyd problemau, o ran gwerth y dosbarth (am ei fod yn rhoi statws a chymhwysedd) ond hefyd yr angen i sicrhau y gallai proffesiynau eraill/dechreuwyr newydd weithredu yn y system.

**Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol)**

**Cwestiwn 4.1**

4.14. A ydych yn cytuno y dylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 15 | 60.0% |
| **Nac ydw** | 5 | 20.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 8.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 4.2**

4.15. A ydych yn cytuno mai Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol) yw'r teitl cywir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 5 | 20.0% |
| **Nac ydw** | 13 | 52.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 4.3**

4.16. Os nad ydych, beth ddylai'r teitl fod yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.17. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yn ddosbarth cofrestru, ond roeddent yn anghytuno â'r teitl a gynigiwyd.

4.18. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y gair 'safonol' yn dibrisio natur broffesiynol y rôl, gan gynnig nifer o deitlau gwahanol megis 'Arolygydd Adeiladau Cofrestredig' neu 'Syrfëwr/Ymarferydd Cyffredinol.'

4.19. Argymhellodd rhai ymatebwyr y dylai'r teitlau ar gyfer dosbarthiadau gwahanol fod yn gyffredinol gyda geiriau goleddfu i adlewyrchu lefel y cymhwysedd, megis 'Risg Gymhleth' neu 'Rheoli.'

**Cwestiwn 4.4**

4.20. A oes unrhyw beth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth cofrestru? Os oes, rhowch wybod inni isod.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 13 | 52.0% |
| **Nac oes** | 5 | 20.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

4.21. Teimlai mwyafrif o'r ymatebwyr fod rhywbeth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth.

4.22. Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod y disgrifiad yn rhy eang, gyda bylchau mawr mewn cymhwysedd rhwng pob dosbarth. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno dosbarthiadau ychwanegol er mwyn cynnig llwybrau clir i gamu ymlaen drwy'r cymwyseddau ac y byddai angen rhagor o fanylion yn y disgrifyddion er mwyn gallu eu cymhwyso'n ymarferol.

**Arolygydd Adeiladau Cofrestredig Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel Iawn)**

**Cwestiwn 5.1**

4.23. A ydych yn cytuno y dylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 20 | 80.0% |
| **Nac ydw** | 2 | 8.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 5.2**

4.24. A ydych yn cytuno mai Arolygydd Adeiladau Cofrestredig Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel Iawn) yw'r teitl cywir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 4 | 16.0% |
| **Nac ydw** | 15 | 60.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 5.3**

4.25. Os nad ydych, beth ddylai'r teitl fod yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.26. Roedd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Dosbarth 3 fod yn ddosbarth cofrestru, ond roedd mwyafrif yn anghytuno â'r teitl a gynigiwyd.

4.27. Teimlai llawer nad yw'n adlewyrchu natur arbenigol y rôl ac y dylai'r teitl gynnwys y gair ‘Arbenigol’, er enghraifft ‘Syrfëwr Rheoli Adeiladu Arbenigol’, a fyddai'n rhoi argraff fwy cywir o'r galluoedd.

4.28. Teimlai rhai, er eu bod yn cytuno â'r teitl, fod y categorïau yn rhy eang ac nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng y lefelau gwahanol o sgiliau a chymwysedd sydd eu hangen.

**Cwestiwn 5.4**

4.29. A oes unrhyw beth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth cofrestru? Os oes, rhowch wybod inni isod.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 10 | 40.0% |
| **Nac oes** | 7 | 28.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 3 | 12.0% |

4.30. Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod rhywbeth ar goll am fod y bandiau arfaethedig presennol yn rhy gul ac nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir y rhaniad rhwng rolau a chyfrifoldebau sy'n bodoli, na'r strwythurau cyflawni gwahanol a ddefnyddir gan Gyrff Rheoli Adeiladu gwahanol.

**Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr)**

**Cwestiwn 6.1**

4.31. A ydych yn cytuno y dylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 12 | 48.0% |
| **Nac ydw** | 8 | 32.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 8.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 6.2**

4.32. A ydych yn cytuno mai Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) yw'r teitl cywir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 4 | 16.0% |
| **Nac ydw** | 13 | 52.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

**Cwestiwn 6.3**

4.33. Os nad ydych, beth ddylai'r teitl fod yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.34. Roedd hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylai hwn fod yn ddosbarth cofrestru, ond roedd ychydig dros hanner yn anghytuno â'r teitl a gynigiwyd.

4.35. Un thema gyffredin a gododd yn yr ymatebion oedd nad yw Rheolwyr yn Arolygwyr Adeiladau yn weithredol, ac awgrymwyd na fyddai'r dosbarth cofrestru na'r teitl yn addas nac yn berthnasol.

4.36. Awgrymwyd amrywiaeth o deitlau amgen ar gyfer y dosbarth cofrestru, gan gynnwys ‘Cyfarwyddwr,’ ‘Uwch-reolwr’, ‘Arolygydd Rheoli Adeiladu Cofrestredig’ a ‘Prif Arolygydd/Swyddog Rheoli Adeiladu.’

**Cwestiwn 6.4**

4.37. A oes unrhyw beth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth cofrestru? Os oes, rhowch wybod inni isod.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 13 | 52.0% |
| **Nac oes** | 6 | 24.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 8.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 3 | 12.0% |

4.38. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod rhywbeth ar goll o'r disgrifiad o'r dosbarth cofrestru.

4.39. Nododd rhai ymatebwyr fod cwmpas y rôl a'r fframwaith yn ymddangos yn gyfyngedig ac nad yw'n ystyried strwythurau rheoli adeiladu amgen. Nododd nifer bach o ymatebwyr fod rheolwyr rheoli adeiladu cwbl gymwys nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol hyd at lefel 6, ac awgrymwyd y dylid diweddaru'r fframwaith i adlewyrchu profiad cyfatebol yn hytrach na chanolbwyntio ar gymhwyster yn unig.

4.40. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid rhannu'r dosbarth yn gategorïau, sy'n adlewyrchu'r gwaith y mae rheolwyr yn ei wneud mewn gwirionedd, cymhwysedd yr Arolygwyr Adeiladau y maent yn eu rheoli a'u statws o fewn sefydliadau gwahanol.

**Cwestiwn 7**

4.41. A oes unrhyw ddosbarthiadau cofrestru ar goll o'r FfCAA yn eich barn chi? Os oes, rhowch wybod inni pa ddosbarth(iadau) ychwanegol y dylid ei gynnwys/eu cynnwys a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 14 | 56.0% |
| **Nac oes** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

4.42. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod dosbarthiadau cofrestru ar goll o'r FfCAA.

4.43. Dywedodd mwyafrif o'r ymatebwyr fod y dosbarthiadau yn rhy eang ac y dylid cynnwys dosbarthiadau ychwanegol ar gyfer rolau arbenigol ac y dylid cydnabod gwahaniaethau mewn cymhwysedd i weithio ar fathau gwahanol o adeiladau, megis Adeiladau Risg Uwch ac Adeiladau nad ydynt yn Risg Uwch.

4.44. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr hefyd at y dosbarthiadau cofrestru amgen a gynigiwyd yn adroddiad FoBC a model y Sefydliad Cymhwysedd Diogelwch Adeiladau.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.45. Un o'r themâu cyffredin a gododd yn yr ymatebion i'r gwahanol ddosbarthiadau cofrestru oedd nad oedd y teitlau a gynigiwyd ar gyfer pob dosbarth yn cael eu hystyried yn gywir, er bod cefnogaeth gyffredinol i'r dosbarthiadau unigol eu hunain. O ganlyniad, mae teitl pob rôl wedi cael ei ddiwygio ac mae rhai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd wedi cael eu defnyddio.

4.46. Un thema gyffredin arall oedd bod y disgrifiadau o bob dosbarth yn eang ac nad oeddent yn gwahanu ddigon rhwng y lefelau gwahanol o gymhwysedd. Byddwn yn sicrhau bod cwmpas pob dosbarth cofrestru yn fwy eglur at ddibenion cofrestru a dibenion gweithredol megis gweithgareddau cyfyngedig. Ymdriniwyd â phryderon unigol ynghylch pwy ddylai gofrestru'n Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr Technegol), ei deitl diwygiedig, yn y FfCAA diwygiedig.

4.47. Bwriedir ymdrin â rhai o'r pryderon a godwyd, megis y lefelau gwahanol o gymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer gwaith ar adeiladau preswyl uchel iawn ac adeiladau cymhleth, fel rhan o'r broses gofrestru ac amodau ar gofrestriad Arolygwyr Adeiladau unigol, megis a yw Arolygydd Adeiladau Cofrestredig penodol wedi'i gofrestru i weithio ar adeiladau preswyl uchel iawn.

## Lefelau cymhwysedd

**Cwestiwn 8.1**

4.48. Gan ystyried y meysydd pwnc cymhwysedd sydd wedi'u cynnwys yn y FfCAA yn adran 4, a ydych yn cytuno mai'r rhain yw'r meysydd cywir i'w cynnwys?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 12 | 48.0% |
| **Nac ydw** | 6 | 24.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

**Cwestiwn 8.2**

4.49. A oes unrhyw feysydd pwnc cymhwysedd na ddylid eu cynnwys yn y FfCAA yn eich barn chi? Os oes, rhowch wybod inni pa rai a pham na ddylid eu cynnwys.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 7 | 28.0% |
| **Nac oes** | 11 | 44.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.50. Er bod hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod y meysydd cywir wedi cael eu cynnwys yn y FfCAA, roedd traean o'r ymatebwyr o'r farn bod meysydd pwnc cymhwysedd eraill y dylid eu cynnwys.

4.51. Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd na ddylai rhai meysydd pwnc cymhwysedd gael eu cynnwys, un thema gyffredin oedd bod y pynciau a'r meysydd cymhwysedd yn berthnasol, ond y dylid ystyried pynciau fel lefelau dealltwriaeth, a chyfeiriwyd at adroddiad FoBC. Awgrymodd dau ymatebydd hefyd y dylid diwygio'r adrannau ar Dechnoleg, gan awgrymu'n benodol y dylid ystyried cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio llawlyfrau technegol.

**Cwestiwn 8.3**

4.52. A oes unrhyw feysydd pwnc cymhwysedd sydd ar goll o'r FfCAA ar hyn o bryd? Os oes, rhowch wybod inni beth sydd ar goll a pham y dylid ei gynnwys.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 8 | 32.0% |
| **Nac oes** | 8 | 32.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 3 | 12.0% |
| **Dim ymateb** | 2 | 8.0% |

4.53. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd ymatebwyr nifer o ychwanegiadau at y FfCAA, gan gynnwys cyfeiriad at feysydd gwybodaeth a nodwyd yn adroddiad FoBC, sgiliau cyfathrebu, cymhwysedd Carbon Sero Net, cyfraith diogelwch tân a sgiliau rheoli pobl.

**Cwestiwn 9.1**

4.54. Defnyddir pedair lefel o gymhwysedd yn y FfCAA ar hyn o bryd. A ydych yn cytuno bod y disgrifiad o bob lefel yn glir? Os nad ydych, rhowch wybod inni beth y dylid ei ddiwygio a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 10 | 40.0% |
| **Nac ydw** | 6 | 24.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 7 | 28.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.55. Roedd ymatebwyr wedi'u rhannu bron yn gyfartal yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 10 yn nodi bod y FfCAA yn eglur, a 13 yn anghytuno neu ddim yn siŵr.

4.56. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r lefelau cymhwysedd fod yn gamarweiniol, neu fod modd eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol, a bod y system yn

ymddangos yn ddigyswllt, gyda phryderon ynglŷn â sut y gellid cofnodi a dangos tystiolaeth o'r lefelau cymhwysedd. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid newid y term ‘lefel’ er mwyn osgoi unrhyw ddryswch rhwng cymhwysedd a chymhwyster.

**Cwestiwn 9.2**

4.57. A ydych yn cytuno bod y lefelau cymhwysedd a amlinellir yn y Tabl o Ofynion Cymhwysedd Sylfaenol yn adran 6 o'r FfCAA yn gywir ar gyfer pob categori cofrestru? Os nad ydych, rhowch wybod inni beth y dylid ei ddiwygio a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 6 | 24.0% |
| **Nac ydw** | 12 | 48.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 5 | 20.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 1 | 4.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.58. Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr yn anghytuno bod y lefelau cymhwysedd a amlinellwyd yn gywir ar gyfer pob categori cofrestru, ond roedd ychydig yn llai na thraean o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gywir. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr yn siŵr.

4.59. Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylid ychwanegu rhagor o gategorïau ac is-gategorïau ar gyfer rhai o'r disgrifyddion, a theimlai rhai ymatebwyr nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng Dosbarth 2 a 3. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y dosbarth Arolygwyr Adeiladau (Rheolwr), gan awgrymu newidiadau i'r lefelau cymhwysedd. Hefyd, awgrymwyd y dylai Moeseg fod yn lefel 4 ar gyfer pob dosbarth cofrestru.

**Cwestiwn 10.1**

4.60. A yw rheoli adeiladu yn broffesiwn lle angen mae cymhwyster sy'n cyfateb i lefel 6/gradd ar hyn o bryd? Os nad ydy, rhowch enghraifft o broffesiwn o'r fath?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 2 | 8.0% |
| **Nac ydy** | 16 | 64.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 4 | 16.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.61. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad yw rheoli adeiladu yn broffesiwn lle mae angen cymhwyster sy'n cyfateb i lefel 6/gradd ar hyn o bryd.

4.62. Dywedodd yr ymatebwyr fod llawer yn y proffesiwn yn gweithio ar y lefel hon ac yn gallu dangos y cymwyseddau a'r profiad gofynnol, ond nad ydynt yn meddu ar y cymhwyster ffurfiol. Nododd llawer o'r ymatebwyr fod ystod o gymwysterau ar hyn o bryd a all arwain at yrfa ym maes rheoli adeiladu megis cymwysterau NVQ, ONC a HNC/HND mewn disgyblaethau cysylltiedig.

**Cwestiwn 10.2**

4.63. A ddylai rheoli adeiladu fod yn broffesiwn lle angen mae cymhwyster sy'n cyfateb i lefel 6/gradd yn y dyfodol? Os na ddylai, beth ddylai'r cymhwyster gofynnol fod?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Dylai** | 10 | 40.0% |
| **Na ddylai** | 9 | 36.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 12.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

4.64. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal o ran a ddylai rheoli adeiladu fod yn broffesiwn lle mae angen cymhwyster sy'n cyfateb i lefel 6/gradd yn y dyfodol?

4.65. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod llwybrau gwahanol tuag at gymhwysedd megis hyfforddiant galwedigaethol, cymwysterau ar lefel gradd ac aelodaeth o sefydliadau proffesiynol. Yn benodol, nododd sawl ymatebydd na fydd rhai yn y proffesiwn yn meddu ar gymhwyster lefel 6 academaidd ond y byddant wedi dangos y lefel ofynnol o gymhwysedd i ymgymryd â'u rôl. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr farn debyg nad yw cymhwyster yn sicrhau cymhwysedd ymarferol.

**Cwestiwn 10.3**

4.66. Os ydych yn credu nad yw rheoli adeiladu yn broffesiwn lefel 6 ar hyn o bryd ond y dylai fod, beth fyddai'n amserlen resymol a realistig ar gyfer pontio i lefel 6?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.67. Cynigiodd ymatebwyr derfynau amser gwahanol, yn amrywio o 3 i 8 mlynedd, ond roeddent yn teimlo y byddai angen cyfnod pontio sylweddol er mwyn i bob gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu gael cyfle i gyrraedd safonau cymhwysedd priodol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.68. Mae'r awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau at y cymwyseddau wedi cael eu hystyried ac mae nifer mawr o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud, megis

rhagor o wybodaeth ynglŷn â chymhwysedd ym maes diogelwch tân a llawlyfrau technegol.

4.69. Mae'r disgrifiadau o'r lefelau cymhwysedd, a'r ffordd y cânt eu labelu, wedi cael eu diwygio er mwyn lleihau dryswch â lefelau cymwysterau, gwella eglurder a chysylltu'n well â'r dosbarthiadau cofrestru a'u lefelau gofynnol. Byddwn yn ystyried paratoi canllawiau er mwyn helpu pobl i ddeall y derminoleg a ddefnyddir yn well.

4.70. Mae'r tabl o ofynion cymhwysedd sylfaenol wedi cael ei adolygu yn sgil yr ymatebion a gafwyd, gan ganolbwyntio ar lefelau cymhwysedd Dosbarth 4. Hefyd, mae Moeseg lefel 4 wedi cael ei gwneud yn ofynnol ym mhob dosbarth cofrestru.

4.71. Nodir bod nifer mawr o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw rheoli adeiladu yn broffesiwn lle mae angen cymhwyster sy'n cyfateb i lefel 6/gradd ar hyn o bryd, a chymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn a ddylai fod felly. Mae'r sylwadau ynglŷn â dewisiadau amgen yn lle cymwysterau penodol ar gyfer ennill, neu brofi, cymhwysedd wedi cael eu hadlewyrchu mewn newidiadau i'r FfCAA, yn enwedig ar gyfer Dosbarth 4.

## Nodweddion gwarchodedig

**Cwestiwn 11.1**

4.72. A ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw agwedd o’r FfCAA yn cael effaith andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw** | 8 | 32.0% |
| **Nac ydw** | 6 | 24.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 8 | 32.0% |
| **Ddim yn berthnasol** | 2 | 8.0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 4.0% |

**Cwestiwn 11.2**

4.73. Os ydych, rhowch wybod inni pa agwedd o’r FfCAA y bydd yn cael effaith andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn eich barn chi.

**Crynodeb o'r ymatebion – ynghyd â Chwestiwn 11.3**

**Cwestiwn 11.3**

4.74. Ar gyfer pob agwedd a nodwyd gennych, dywedwch wrthym ar bwy y bydd y polisi hwn yn cael effaith niweidiol, a sut.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.75. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai rhai anableddau atal rhywun rhag ymgymryd â'r ystod lawn o weithgareddau ond y gallai lefel ei gymhwysedd fod yn ddigonol.

4.76. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd hwn yn gwestiwn y gallent ei ateb. Teimlai rhai y gallai fod risg benodol o wahaniaethu ar sail oedran, er enghraifft yn erbyn y rhai sydd wedi gweithio yn y diwydiant ac sydd wedi cael cryn brofiad ond nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau ffurfiol angenrheidiol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.77. Nodwn bryderon y gallai gofynion ynglŷn â dangos cymhwysedd effeithio ar rai pobl â nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn mynd ati i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## Cwestiynau cyffredinol

**Cwestiwn 12**

4.78. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.79. Teimlai mwyafrif o'r ymatebwyr na fyddai'r polisïau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, gyda rhai sylwadau'n nodi y gallent gael effaith gadarnhaol gan y byddent yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**Cwestiwn 13**

4.80. Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gallai’r polisïau arfaethedig gael eu llunio neu’u newid fel eu bod yn effeithio’n gadarnhaol neu’n cael mwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac fel na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.81. Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. O blith y rhai a deimlai y byddai effaith, roedd hanner wedi gwneud sylwadau tebyg y dylid anelu at ddarparu Gwasanaeth Rheoli Adeiladu sy'n addas at y diben ac sydd ag adnoddau digonol fel y prif nod, ac yna ystyried pa mor effeithiol y gallai Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn Gymraeg fod.

**Cwestiwn 14**

4.82. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.83. Defnyddiodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn i danlinellu'r pwyntiau a wnaed ganddynt mewn cwestiynau blaenorol, er enghraifft drwy dynnu sylw at yr angen i'r Fframwaith ddarparu ar gyfer dosbarthiadau ychwanegol ac is-gategorïau. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor â'r meysydd cymhwysedd ond yn teimlo bod diffyg hyblygrwydd yn y cynnig cyffredinol i'w gwneud yn bosibl iddo gael ei gymhwyso at strwythurau sefydliadol gwahanol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.84. Rydym yn ddiolchgar am yr holl sylwadau ac awgrymiadau a gynigiwyd. Maent i gyd wedi cael eu hystyried ac rydym wedi gwneud llawer o ddiwygiadau i'r FfCAA arfaethedig o ganlyniad i hynny. Rydym yn deall y sylwadau ynglŷn â hyblygrwydd a byddwn yn eu hystyried wrth i'r FfCAA gael ei lunio'n derfynol.

4.85. Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys yn ystod y broses o lunio'r FfCAA yn derfynol a'i gyhoeddi.

# 5. Y Camau Nesaf

5.1. Caiff y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA) ei lunio'n derfynol yn unol ag ymateb y Llywodraeth uchod a'i gyhoeddi yn yr hydref.

5.2. Pan fydd wedi'i gyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r FfCAA yn rheolaidd ac yn ei ddiweddaru yn ôl y gofyn, a bydd yn ystyried safbwyntiau'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill wrth wneud hynny.